1. Cwestiynau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gydag atebion gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru/ Comisiwn Coedwigaeth Cymru

---

1.2 Cwestiynau ar beth sydd yn gyrru newid, a pha benderfyniadau a wnaed eisoes

Beth (e.e. Ewrop, economeg ac yn y blaen) sydd yn gyrru diddordeb Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yn ardal Coedwig Niwbwrch?

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn rheoli'r coetir er mwyn cyflawni amcanion a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei dogfen "Coetiroedd i Gymru" ac mae'n defnyddio Cynllun Dylunio Coedwig i ddatblygu a disgrifio'r ffordd y mae'n cydbwyso anghenion pobl, cadwraeth, hamdden, twristiaeth, tirwedd a gweithgaredd economaidd cynaliadwy.
Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n gyfrifol am reoli twyni tywod, traeth ac aberoedd cyffiniol y Warchodfa Natur Genedlaethol ac am ddarparu cyngor ar gadwraeth llystyfiant, anifeiliaid a nodweddion daearegol neu ffisiograffeg ac maent yn gynghorwyr ar gyfleoedd Cadwriaethol ac Amgylcheddol arbennig y safle.
Mae'r Cynllun presennol ddeng mlwydd oed a dyma gyfle am integreiddio'n well ein rheolaeth o'r twyni tywod a'r coetir i wella eu gwerthoedd ecolegol a chymdeithasol.

Cyfeiriadau

- Coetiroedd i Gymru
- Cyfarwyddyd Cynefinoedd
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn
- Strategaeth Coetir Ynys Môn
- Y Cynllun Datblygu Unedol
- Cytundeb Århus a Chyfarwyddyd 2003/35/EC yr Undeb Ewripeaidd
- Llyfryn Cyngor Cefn Gwlad Cymru: cyfres gynefinoedd Rhif 7 Twyni Tywod

A ydyw'n wir bod argaffaeledd arian Ewrop yn gyrru'r cynlluniau datgoedwigo?

Nac ydyw. Nid oes unrhyw gyllideb Ewropeaidd yn gyrru'r broses.

Beth yw'r Ardal Gadwraeth Arbennig yma? Beth mae 'cyrraedd statws cadwraethol ffafriol yr Ardal Gadwraeth Arbennig' yn ei olygu? A beth fydd yn digwydd os na chyrhaeddir hyn (Onid yw hi'n wir y bydd Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn wynebu erlyniad os na chyrhaeddir - h.y. ni fydd ymgynghori'n cael unrhyw effaith ar y penderfyniad?) Beth y mae statws Ardal Gadwraeth Arbennig yn gorfodi Cyngor Cefn Gwlad Cymru i'w wneud? Beth y mae'r Cyfarwyddyd Cynefinoedd yn ei olygu i'r ardal hon?

- Mae Cwningar Niwbwrch yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig twyni tywod Abermenai i Aberffro a enwebwyd o dan gyfarwyddyd cynefinoedd yr UE i warchod amrediad rhywogaethau a chynefinoedd bywyd gwyllt Ewrop.
- Mae'n ofynnol ar Lywodraeth y DU i weithio tuag at 'Statws Cadwraethol Ffafriol' y nodweddion hyn ac i osgoi dirywiad y nodweddion hynny yr enwebwyd yn Ardal

Gadwraeth Arbennig o'u herwydd.

- Mae cyrraedd 'Statws Cadwraethol Ffafriol' yn gyfuniad o sicrhau bod y cynefin neu'r rhywogaeth mewn cyflwr da, bod rheolaeth y cynefin neu'r rhywogaeth i'r dyfodol yn ddiogel a bod y ffactorau neu brosesau sydd yn penderfynu ei gweithrediad ar y tymor hir yn weithredol.
- Rhaid i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru gynnal Asesiad o effeithiau ei reolaeth o'r Ardal Gadwraeth Arbennig. Pe byddai ei gynllunio'n effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd yr Ardal Gadwraeth Arbennig, dim ond am resymau o fudd trechol y cyhoedd y gall ei gweithrediad fynd yn ei flaen. Mewn achos o'r math mae'n bosibl y gellid mynnu mesurau lliniarol er mwyn sicrhau cyfanrwydd yr Ardal Gadwraeth Arbennig.
- Ni ellir cynnal Asesiad cyn yr ysgrifennwyd Cynllun Dylunio.
- Gall methu cadw at y rheolau hyn arwain at erlyniad o flaen Llys Barn Ewrop.
- Yr her yw creu Dyluniad sydd yn cyrraedd Statws Cadwraethol Ffafriol i'r Ardal Gadwraeth Arbennig a holl amcanion cyfranogwyr eraill ar y safle.

Mae nodweddion Ardal Gadwraeth Arbennig safle Niwbwrch yn cynnwys:

1. Twyni tywod symudol yn ymffurfio (llinell y traeth)
2. Twyni tywod symudol ar hyd llinell y traeth gyda moresg *Ammophila arenaria* ('twyni gwynion').
3. Twyni tywod sefydlog gyda llystyfiant llysieuol ('twyni llwydion')
4. Twyni gyda helyg ymgripiol (*salix repens ssp.argentea*)
5. Pantau llaith rhwng y twyni tywod.
6. Llynnoedd naturiol faethlon a nodweddir yn aml gan ddyfrllys.
7. Petal-lys *Petalophyllum ralfsi (afuad)*
8. Tafol y traeth *Rumex rupestris (planhigyn fasgwlaidd)*

Hefyd mae Cwningar Niwbwrch (gan gynnwys y goedwig) yn rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Neilltuol o dan ddeddfwriaeth y DU, a gofnodwyd am ei ddaeareg, tirweddau, cynefinoedd a rhywogaethau sydd yn sylfaen i'r Ardal Gadwraeth Arbennig.

Pa fath o newid y mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth am eu gweld yn yr ardal, a pam hynny? Beth y mae'r Cynulliad am wneud gyda'r tir? Beth yw statws y 'weledigaeth' a'r cynlluniau a mapiau a welsom yn y cyfarfodydd cyhoeddus, a'r Cynllun Dylunio Coedwig presennol?

Rhedodd y Cynllun Dylunio Coedwig allan yn 2001 (**CHECK DATE**!). Bu'r 'weledigaeth' erioed **[hyperlink to archived version]** ond yn un o'r ffyrdd o gwrdd â'r amcanion amgylcheddol, a bellach rhoddwyd hi i'r neilltu.

Pa dystiolaeth wyddonol sydd gennych chi i gefnogi eich syniad bod angen newid pethau? Beth sydd wedi digwydd i'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol a gomisiynwyd yn gynharach eleni? A ydyw hyn yn golygu eich bod chi yng Nghyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth wedi gwneud eich penderfyniad eisoes?

Nid yw gwneud dim byd yn ddewis o gwbl. Bydd pethau'n newid beth bynnag y byddwn yn ei gwneud wrth i gnwd y coed yn Niwbwrch aeddfedu a rhaid inni ei reoli'n weithredol er mwyn sicrhau bod gennym amgylchedd y bydd y defnyddwyr yn ei fwynhau. Ataliwyd yr

Asesiad Effeithiau Amgylcheddol ynghyd â'r Weledigaeth nes y cwblhawyd y broses ymgynghorol. Mae tystiolaeth wyddonol bod y blanhigfa o gonifferau'n effeithio ar ecosystem y twyni tywod trwy sefydlogi a sadio'r tirweddau naturiol symudol a dynamig, trwy newid llystyfiant a chreaduriaid naturiol y twyni tywod a thrwy ostwng y dwr daear.

Cyfeiriadau

Hill M O & Wallace H L (1989) Vegetation and environment in afforested sand dunes at Newborough, Anglesey. Forestry 63(3) tudalennau 249 -267.

Rhind P M., Blackstock T H, Hardy, H S, Jones R E, Sandison W (DATE). The evolution of Newborough Warren dune system with particular reference to the past four decades....,

Houston J, (DATE) British Wildlife

Bristow etc er asl (Adroddiadau Coleg Birkbeck)

Ranwell, D S (1958) Movement of vegetated sand dunes at Newborough Warren, Anglesey. J Ecol 46, 83 -100

Ranwell, D S (1959) Newborough Warren, Anglesey I: The dune system and dune slack habitat. J Ecol 47 571 -602

Ranwell, D S (1960a) Newborough Warren, Anglesey II: Plant associes and succession cycles of the sand dune and dune slack vegetation. J Ecol 48 117 -142

Ranwell, D S (1960b) Newborough Warren, Anglesey III: Changes in the vegetation on parts of the dune system after the loss of rabbits by myxomatosis. J Ecol 48 385 -395.

Beth fydd yn digwydd i'r goedwig tra llunnir y cynllun newydd? Pam nad oedd yr ymgynghoriad hwn wedi dechrau'n gynharach? Beth yw dulliau safonol o newid Cynlluniau Dylunio Coedwig? A allwn ni fod yn sicr y defnyddir y rheolau Ardal o Brydferthwch Naturiol Neilltuol?

Bydd y goedwig yn parhau i gael ei rheoli fel coetir masnachol a hamddenol, felly bydd teneuo a gwaith cynnal a chadw yn parhau. Ni fydd gweithfeydd helaeth i newid patrwm, strwythur ac amrywiaeth yn dechrau nes y lluniwyd Cynllun cytunedig. Bydd Cynlluniau Dylunio Coedwig yn rhedeg am ddeng mlynedd (ond maent yn edrych ymlaen am 30 o flynyddoedd) ac yn cael eu harolygu bob pum mlynedd.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth mewn trafodaethau ar adolygiad o'r Cynllun Dylunio Coedwig ers 2000, (roedd y cynllun diwethaf i gael ei adolygu yn 2001) ond torrodd blaenoriaethau eraill ar draws hynny. Dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus ar ôl i'r Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi dod i ddealltwriaeth o'r testunau amgylcheddol y dylid eu trin, roedd y 'weledigaeth' i ffurfio sail am ymgynghoriad ehangach. Hysbyswyd y Cyngor Cymunedol o dan hen drefniant.

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 yn gosod ymrwymiad ar bob awdurdod cyhoeddus (gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth)

i roi ystyriaeth i bwrpas cadw a mwyhau prydferthwch naturiol yr Ardal o Brydferthwch Naturiol Neilltuol wrth weithredu eu gorchwylion. Dylai gweithgareddau yn yr Ardal o Brydferthwch Naturiol Neilltuol gael eu harwain gan Gynllun Rheoli'r Ardal o Brydferthwch Naturiol Neilltuol. Hefyd byddai unrhyw gynllun a fydd angen caniatâd cynllunio'r Awdurdod Lleol yn amodol ar y Polisïau Cynllunio a nodir yn y Cynllun Lleol, y Cynllun Datblygu Unedol a Pholisi Cynllunio Cymru.

1.2 Cwestiynau ynglyn â'r hyn a gaiff ei ystyried i fod o fewn amrediad y gwaith, a sut y mae'n cysylltu â mentrau eraill.

Pa mor gyfunol fydd hyn oll â chynlluniau eraill, gyda buddiannau iechyd, cymdeithasol ac economaidd, gyda buddiannau a thestunau'r ardal ehangach? Pa argymhellion eraill sydd yn bodoli am yr ardal (e.e. gwaith ynni bio-danwydd, canolfan dehongli a chanolfan ymwelwyr, cabanau pren?) A gynhwysir y rhain yn yr ymgynghoriad ar y goedwig?

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yn Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac mae'n ofynnol arnynt i gyflawni polisïau'r Cynulliad lle'n rhesymol ac yn briodol. Cydnabyddir pwysigrwydd economaidd Coedwig Niwbwrch, y traeth a'r twyni fel atyniad pwysig a buddion iechyd hamdden awyr agored gan y naill asiantaeth a'r llall. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yn ymwneud mewn lleoedd eraill ag arlwybro mentrau economaidd, hamddenol ac iechyd, e.e. ymgyrch "Cerdded eich Ffordd i Iechyd", sefydlu llwybrau a mentrau beiciau mynydd ac ariannu cynlluniau trafnidiaeth werdd.

Sut y bydd hyn yn cydweddu â Strategaeth Coetir Ynys Môn e.e. a fydd yn bosibl cydbwyso torri coed gydag argymhellion plannu rhywle arall?

Mae modd trin cwestiwn plannu cydadferol trwy Strategaeth Coetir Ynys Môn.

Faint o dir a gynhwysir yn hyn - Twyni Penlon, Cors Malltraeth?

Yr angen allan o law yw llunio cynllun ar gyfer ardal y goedwig. Pan fydd hwnnw ar gael, mae'n bosibl y bydd trafodaeth o'r amgylchedd ehangach yn briodol.

Pa mor hyblyg neu gadarn fydd unrhyw gynlluniau i drin unrhyw newidiadau i'r hinsawdd ac yn y blaen yn y cyfnod hir?

Mae'r Cynllun Dylunio Coedwig yn gynllun hir-gyfnod, ond rhaid iddo adlewyrchu blaenoriaethau cyfnewidiol. Bydd y cynllun yn ystyried hefyd testunau megis newid i'r hinsawdd (a chodiad yn lefel y môr), lle mae ansicrwydd mawr am yr hyn a fydd yn digwydd. Bydd y broses yn symud yn ei blaen ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael. Bydd arolygiadau cyfnodol (5 mlynedd) yn ei gwneud yn bosibl i ymgorffori gwybodaeth newydd.

Beth a gymerir i ystyriaeth wrth blannu a gweithredu'r ardal? A roddir ystyriaeth i blanhigion prin? Sut y mesurir y canlyniadau ariannol (hamdden, taliadau parcio, pren)?A roddir ystyriaeth i orchwyl byd-eang yr ardal (e.e. fel swmp carbon)? Sut y cydbwysir barn y cyhoedd a phethau megis gofyniadau'r Ardal Gadwraeth Arbennig, y Cyfarwyddyd ar Gynefinoedd ac yn y blaen?

Bydd y broses ymgynghorol yn adnabod yr holl destunau (amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd) sydd yn effeithio'n ar y goedwig. Ein her ni fydd dod o hyd i gydbwysedd addas. Diogelir barn y cyhoedd trwy gyfrwng y grwp cydlynu.

Beth yw ystyr 'coedwigaeth o safon byd-eang'?

Bydd diwydiannau coetirol yn cyfrannu rhyw £400 miliwn y flwyddyn at economi Cymru. Er mwyn i berchnogion coetir, contractwyr, melinau llif a busnesau saeryddiaeth ffynnu mewn marchnad pren gystadleuol iawn y byd i gyd, rhaid iddynt fuddsoddi a datblygu mewn staff, offer, y gadwyn cyflenwi pren, datblygiad a marchnata cynhyrchion. Mae hyn yn galw am gefnogaeth busnes effeithiol, a choedwigoedd ar draws y sector.

1.3 Penderfynu a staffio

Pwy sydd yn rheoli'r prosiect? Pwy sydd yn sicrhau i bopeth gael ei wneud yn iawn? Pwy fydd yn bwrw'r penderfyniad terfynol? Pam y mae'r bartneriaeth yn y canol mor fach? Beth fydd rhan y cyngor cymuned? Pam nad yw Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n rhan ohono? Ble mae cynllunwyr y cyngor sir?

Bydd rheolwyr tir y Comisiwn Coedwigaeth yn llunio drafft Cynllun Dylunio Coedwig y mae rhaid i adran reolaethol y Comisiwn Coedwigaeth ei gymeradwyo er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â'r safonau cyfreithiol a thechnegol. Mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru'n cymryd rhan agos yn y bartneriaeth oherwydd natur sensitif y safle ac agosrwydd y warchodfa natur. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor Cymunedol yn bartneriaid ymgynghori stadudol.

Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn rheoli'r goedwig ar ran Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw cynghorwyr y Cynulliad ar faterion cadwraethol.

Sut y gallwn ymddiried yn y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru mai 'ailgychwyniad newydd' yw hwn pan na fu unrhyw newidiadau staff?

Mae gan staff y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru waith i'w gwneud a byddant yn cael cefnogaeth a chanllawiaeth Grŵp Cydlynu a fydd yn datblygu Amodau Gorchwyl am eu rhan. Ar y cyd byddant yn datblygu Cynllun Dylunio Coedwig sydd yn cynnig orau y canlyniadau lliaws a ddisgwylir gan y goedwig.

A fydd rhywun annibynnol yn rheoli pethau fel y wefan a'r fforwm trafodaeth er mwyn sicrhau y cymerir pob barn i ystyriaeth?

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn rheoli eu gwefannau eu hunain; mae'n bosibl y defnyddir arlwybrwr annibynnol er mwyn sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd i farn y grwp cydlynu.

1.4 Cynlluniau cyfranogiad

A fydd yr adrodd(iadau) o'r ymgynghoriad ar gael yn eang?

Bydd pawb sydd wedi rhoi eu cyfeiriadau'n cael copi. Bydd ar gael hefyd ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth.

A ydyw'n wir nad oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru am gael unrhyw ymgynghoriad ar hyn?

Nac ydyw. Aeth y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru â'u barn wreiddiol ar y cynllun dylunio a'r weledigaeth ganlynol (a roddwyd i'r neilltu bellach) i'r Cyngor Cymunedol a Fforwm Amgylcheddol Ynys Môn (rhan o fecanwaith Strategaeth Gymunedol y Cyngor Sir) a Phanel Amgylcheddol Coedwig Niwbwrch (Grwp cydlynu cymunedol Comisiwn Coedwigaeth Cymru). Bu Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n agos ei gysylltiad â chynllunio a threfnu'r ymgynghoriad cymunedol lleol a chynllunio ymgynghoriad ehangach â chyfranogwyr eraill.

A fydd mwy o gyfranogiad a chyfarfodydd gyda'r cyhoedd a chyfranogwyr yn y dyfodol? Beth fydd gorchwyl y grwp cydlynol?

Bydd. Cynhelir ymgynghoriad pellach pan fydd y dewisiadau'n gliriach. Byddwn yn ei wneud yn gynharach os gallwn - mae'r Cynllun Dylunio Coedwig eisoes yn hwyr, ond rhaid inni ei gael yn iawn.

1.5 Testunau penodol i'r ardal

A ydyw Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth am gael gwiwerod cochion yng nghoedwig Niwbwrch? A all Cyngor Cefn Gwlad Cymru ddweud wrthym beth fyddai poblogaeth hyfyw a chynaliadol dderbyniol y gwiwerod cochion yn Niwbwrch?

Mae pawb yn awyddus i gael gwiwerod cochion yn Niwbwrch fel rhan o Brosiect Gwiwerod Cochion Ynys Môn.

Mae cwestiwn poblogaeth hyfyw a chynaliadol yn gymhleth iawn, yn dibynnu ar dybiaethau am amserlen, cyfradd yr ymyrraeth gan ddynol ryw, cysylltedd cynefin, lefelau ysglyfaethu ac afiechyd ac yn y blaen. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n ariannu Prosiect Gwiwerod Cochion Ynys Môn ers chwe mlynedd ac mae'n parhau i wneud hynny.

Pam mae angen merlod?

Mae merlod yn ddewis gwyrdd. Cânt eu defnyddio mewn mannau penodol o fewn y goedwig fel medelwyr naturiol er mwyn cynnal llennyrch agored ar gyfer amcanion cadwraeth penodol - gan gynnwys nifer o rywogaethau prin iawn megis tafol y traeth a gelod meddyginiaethol. Mae eu carthion yn cynnal llawer o greaduriaid di-asgwrn-cefn (a ddefnyddir fel bwyd gan adar megis y frân goesgoch) a rhywogaethau prin o ffwng. Maent yn cael eu defnyddio'n helaeth ar y gwningar agored i adfer a chynnal cymuned glastonnen byr yn gyfoethog mewn rhywogaethau.

A ydyw'r tir yn rhyw asidaidd am i unrhyw beth arall dyfu yno?

Nac ydyw. Mae'n bosibl bod y pridd o dan nodwyddau'r pinwydd yn fwy asidaidd, ond nid yw hyn yn atal tyfiant rhywogaethau eraill. Mae'r tywod yn gyfoethog mewn calch sydd yn gyfrifol am lawer o'r llystyfiant a'r creaduriaid sydd yn gysylltiedig â'r twyni tywod. Bydd ansefydlogrwyddau bychain (megis chwythiadau gwynt a chreithiau erydu) yn dod â'r tywod sydd yn gyfoethog mewn calch yn ôl i'r arwyneb. Mae'n bosibl i fannau penodol ddatblygu i fod yn gymunedau asidaidd megis rhostir y twyni neu gymunedau a nodweddir gan gen. Gan fod y naill gymuned a'r llall yn brin yng Nghymru, dylid eu ffafrio.

Beth fyddai'n digwydd pe buaswn yn cymryd ystod canllath o'r goedwig i ffwrdd o flaen y twyni?

Byddai torri coed yr ymylon yn agor llinell newydd o goed mawr i'r gwynt a'r halen, a byddai arwyddion o farw'n ôl yn amlwg. Mae'n annhebygol y bydd coed yn cael eu taflu i lawr gan y gwynt, ond byddai'n ddoeth i ddatblygu 'llethr' newydd o brysg rhyw 100 metr yn ôl cyn torri coed ar y blaen, er mwyn diogelu'r goedwig ehangach. Byddai'r twyni symudol gyda moresg yn ail-ymsefydlu, gan helpu gwyro rhywfaint o halen a gwynt yn y broses. Byddai gwaredu seiliau gwreiddiau ar glogwyni'r twyni tywod yn caniatáu i'r tywod sefydlu llethrau llai serth ar linell y traeth a'r twyni rheng flaen lle y byddai llystyfiant naturiol yn ymsefydlu. Byddai rhywfaint o symudiad o'r tywod yn digwydd wrth i dwyni tywod ffurfio ar ymyl y goedwig, ond byddai plannu moresg yn cadw llwybrau mynediad yn glir.

Beth yw economeg y sefyllfa? Incwm a chostau cynlluniau coedwig? Pwrpas y tâl am barcio (rhwystro ymwelwyr i'r Ardal Gadwraeth Arbennig)?

Byddwn yn penderfynu costau'r Cynllun Dylunio Coedwig pan fydd y gweithredoedd rhagddisgrifiedig wedi eu penderfynu a'u blaenoriaethu. Os bydd costau (llai incwm) yn fwy na'r cyllidebau gweithredu presennol, yna byddwn yn chwilio am ffynonellau ychwanegol o gyllid - yn bennaf gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Pwrpas codi tâl am barcio yw codi incwm ar gyfer gweithgareddau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, gan gynnwys gosod wyneb ar ffordd y goedwig (nad cynhelir gan yr Awdurdod Lleol) a'r maes parcio a'r cyfleusterau toiled. Nid oes unrhyw strategaeth i rwystro ymwelwyr i'r Ardal Gadwraeth Arbennig, ond rydym yn ymwybodol o gostau amgylcheddol ceir. Rydym yn cymryd yn ganiataol bod pobl yn dod i weld y goedwig a'r twyni, ac nid maes parcio. Felly mae cyfyngiad i faint y maes parcio (370 o leoedd a 25 yng Nghwningar) ac mae'r tâl wrth y glwyd yn helpu rheoli'r defnydd ohono.

Cwestiynau a godwyd yn ystod ymgynghoriadau ac atebion iddynt

Y prosiect bio-danwydd

Mae'r prosiect bio-danwydd yn brosiect annibynnol dan arweiniad Coed Cymru ac EGNI nad yw yn ddibynnol ar gynllun dylunio'r goedwig. Er y gallai ddefnyddio pren o radd isel a phren gwastraff o'r goedwig (ac o fannau eraill), gall hyn ddigwydd gyda gweithrediad gweledigaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth neu heb hynny.

Mae'r Prosiect wedi cael ei rewi tan ar ôl y sesiynau galw heibio a'r cyfarfod cyhoeddus ar gyfer y Cynllun Dylunio Coedwig. Mae'n bosibl y bydd yn cynnal ei ymgynghoriad penodol ei hunan unwaith y cafwyd cydsyniad ar y Cynllun Dylunio Coedwig

Cyngor Cefn Gwlad Cymru - Dydyn nhw ddim yn hoffi pobl a dydyn nhw ddim am gael pobl ar y safle. - Ddim am i gyngor Cefn Gwlad Cymru ail-wneud yr un camgymeriadau

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n croesawu pobl am fwynhad tawel a defnydd cyfrifol o'r Warchodfa Natur Genedlaethol. Byddai cynnwys y goedwig o fewn y Warchodfa Natur Genedlaethol yn cynnig cyfle am reoli mynediad ac adnoddau hamdden ar y safle i gyd mewn ffordd mwy 'cyfannol'.

Tywod yn chwythu

Roedd tywod yn chwythu'n broblem yn Niwbwrch yn y blynyddol cynnar ar ôl y rhyfel, pan oedd gweithgareddau milwrol a phori trwm iawn gan gwningod wedi tarfu ar y safle. Oddi ar fycsomatosis cwningod yng nghanol y 1950au, mae'r twyni tywod wedi ymsefydlogi bron ym mhobman - gan gynnwys y Gwningar agored, a cheir ychydig bach o dywod yn chwythu heddiw. Byddwn yn hoffi cael rhywfaint o symudiad yn y tywod, yn enwedig ar yr ochrau sydd yn wynebu'r môr, gan fod prinder tywod agored ar gyfer rhai o'r planhigion a chreaduriaid di-asgwrn cefn prin sydd wedi addasu i'r amgylchedd hwn. Bellach mae'r twyni'n tueddi i ymsefydlogi'n naturiol a byddai cadw rhan helaeth o'r goedwig yn sicrhau nad fyddai unrhyw berygl o'r tywod yn symud ym mhell i mewn i'r tir.

Cyfyngu cerddwyr a defnyddwyr eraill i llai o dir

Nid oes unrhyw gynllun am leihau'r tir sydd ar gael i gerddwyr a defnyddwyr eraill - yn wir, bydd ymrwymiad tir presennol y Comisiwn Coedwigaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad agored yn corffori'r polisi mynediad agored presennol yn y gyfraith. Dylai cynllunio gofalus o leiniau cysgodi a llwybrau sicrhau bod yr ardal yn aros yn ddeniadol i gerddwyr mewn tywydd drwg.

Tir diffaith helaeth
Wrth glirio coed o ran o dir, ceir cyfnod anorfod o ymyrraeth sydd yn anolygus. Mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi dangos bod hyn yn bryder o bwys, ac os byddwn yn clir-dorri, buaswn yn gobeithio gwaredu tocion, sgrwtsh a bonion o fannau amlwg er mwyn cynorthwyo adfywiad y llystyfiant naturiol. Mae'n bosibl y bydd angen plannu rhywfaint o foresg er mwyn ailsefydlu datblygiad twyni tywod mewn mannau.

Y broses o gyrraedd pen draw'r daith - newid tirwedd
Mae tirwedd Niwbwrch yn newid ers mil o flynyddoedd a mwy - efallai'n fwyaf dramatig yn ystod y trigain mlynedd diwethaf - ac mae hanes y newid yn un gyfareddol. Mae rhywfaint o newid yn anorfod wrth i'r goedwig aeddfedu a datblygu. Trwy gynllunio gofalus byddwn yn gobeithio cadw agweddau negyddol y newid i'r lleiafswm.

Dinistrio bywyd gwyllt

Rhaid i'r Cynllun Dylunio Coedwig ymdrechu i ddiogelu bywyd gwyllt trwy drin eu hanghenion cynefinol - megis gwella cynefin y twyni tywod trwy hwyluso datblygiad naturiol y twyni tywod, adfer lefel dŵr daear naturiol lle'n bosibl, cynyddu amrywiaeth y

rhywogaethau a strwythur y coetir. Lle bydd angen ymyrraeth i wneud hyn, byddai angen defnyddio dulliau priodol, megis cyfyngu torri coed i gyfnod y gaeaf ac osgoi mannau teimladol.

Llysiau'r Gingroen

Mae llysiau'r gingroen yn elfen naturiol o lystyfiant y twyni tywod. Mae'n wenwyn i anifeiliaid sydd yn pori, ond fel arfer maent yn eu hosgoi pan yn las. Gall fod yn broblem os caiff llysiau'r gingroen grin neu farw eu rhoi i anifeiliaid fferm. Yr ateb yw osgoi eu cynnwys nhw mewn gwair a lleihau eu lledaeniad trwy arferion pori da, gan osgoi gor-bori a all arwain at sefydlu had-blanhigion. Mae llysiau'r gingroen yn 'chwyn niweidiol' ac mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yn glynu at y Côd Arferion i Arbed a Rheoli Lledaeniad Llysiau'r Gingroen (2004).

Dim torri coed

Plannwyd Coedwig Niwbwrch er mwyn darparu pren. Torrir coed am bren ac am gynhyrchion coedwigol eraill megis MDF. Byddwn hefyd yn torri coed er mwyn gwella amrywiaeth strwythurol a biolegol y goedwig.

Dim cwningod

Mae cwningod yn hen elfen ymhlith creaduriaid y twyni tywod, er i'r niferoedd gael eu lleihau'n ddirfawr gan fycsomatosis ac yn fwy diweddar gan Glefyd Firal Gwaedlifol Cwningod (CFGC/RHVD). Mae pori ganddynt yn helpu cadw'r twyni'n agored a diogelu cynefinoedd amrywiol ar gyfer planhigion prin a chreaduriaid di-asgwrn-cefn megis glaswellt cynnar y tywod a gwenyn tyrchol. Yn aml, bydd cwningod yn ffynnu mewn cyfuniad ag anifeiliaid pori eraill, gan ddefnyddio'r gwellt byr a adewir ar ôl gan wartheg neu ferlod, ond maent yn ei chael yn anodd i ledaenu mewn llystyfiant trwchus.

Dim newid

Rhaid wrth Gynllun Dylunio Coedwig newydd er mwyn caniatáu rheolaeth o'r goedwig yn y dyfodol. Mae newidiadau naturiol ymlaen trwy'r amser, gan gynnwys aeddfedu coed a newidiadau i'r traeth mewn canlyniad i newidiadau hinsoddol. Bydd cydlyniad y coed a'r tywod yn newid beth bynnag fydd yn digwydd.

Dim digon o ymgynghori hyd yn hyn

Buasai'n well gennym ddechrau'n gynharach o lawer, ond ein bwriad yw gwneud y broses ymgynghorol a chyfrangol hon mor dryloyw â chynhwysol ag sydd yn bosibl. Yn dilyn y cyfarfod ym mis Medi, byddwn yn adnabod yr holl argymhellion am y ffordd ymlaen ar sail yr holl syniadau a barn a gasglwyd dros yr haf ac yn bwydo hynny'n ôl. Gellir defnyddio Asesiad Effeithiau Amgylcheddol fel teclyn i helpu penderfynu rhwng y dewisiadau neu ddatblygu atebion cyfaddawdol sydd yn cwrdd ag anghenion pawb cyn belled ag y bydd yn bosibl. Byddwn yn gwneud yn sïwr y byddwn yn ymgynghori wrth i gynllun dyluniad y goedwig yn symud yn ei flaen.

Pryder bod gan bobl o'r tu allan ormod o ddylanwad, gan wthio'r Cyngor Cymunedol

i'r neilltu.

Cadwyd Cyngor Cymuned Rhostyr yn hysbys o ddatblygiad y Cynllun Dylunio Coedwig ers nifer o flynyddoedd. Mae ganddo ran allweddol yn y broses ymgynghorol.

Bydd lleoli canolfan ymwelwyr y tu allan i'r goedwig yn golygu na fydd y pentref yn elwa'n ariannol.

Mae canolfan yr ymwelwyr yn brosiect partneriaethol ar wahân a gefnogir gan Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth dan arweiniad Menter Môn. Ar hyn o bryd mae ond yn astudiaeth ymarferoldeb i archwilio'r dewisiadau am sut y gallai canolfan ymwelwyr weithio er mwyn mwyafu'r buddion economaidd i'r ardal yn ogystal ag ychwanegu at brofiad yr ymwelwyr. Bydd yn archwilio'r dadlau o blaid ac yn erbyn gwahanol leoliadau a hefyd bydd yn ystyried y dewis 'dim canolfan ymwelwyr'. Mae wedi rhewi tan ar ôl y cyfarfodydd galw heibio a'r cyfarfod cyhoeddi ar gyfer y Cynllun Dylunio Coedwig. Bydd yn cynnal ei ymgynghoriad penodol ei hunan unwaith y cytunwyd ar destunau'r Cynllun Dylunio Coedwig.

Effeithiau defnydd y cyhoedd a mynediad y cyhoedd i'r goedwig.

Nid oes unrhyw argymhelliad i gyfyngu mynediad y cyhoedd i'r ardal - yn wir, bydd mynediad yn cael ei gorffori yn neilltuad tir y Comisiwn Coedwigaeth fel Tir Mynediad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Ddim am gael gweithgareddau niweidiol megis beiciau modur a marchogaeth.

Mae polisi mynediad i Goedwig Niwbwrch i arlwybro defnydd hamdden tawel ar droed. Mae marchogaeth yn weithgaredd dilys, a reolir ar hyd llwybrau dynodedig ac a gyfyngir gan system o drwyddedau. Caniateir beicio ar lwybrau penodol. Rydym yn chwilio am ffyrdd i adael i'r gweithgareddau hyn i gyd cyd-fodoli heb wrthdrawiad er mwyn caniatáu i'r nifer fwyaf posibl o bobl fwynhau'r safle heb niweidio'r tawelwch yr ydym i gyd yn ei werthfawrogi.

Y goedwig yn troi'n rhy fasnachol o ochr yr ymwelwyr oherwydd er enghraifft y ganolfan ymwelwyr

Mae Niwbwrch yn goedwig fasnachol ers amser maith. Yr her bellach yw cynnal ei phwysigrwydd am fywyd gwyllt a'i gwerth am hamdden tawel tra'n sicrhau bod cyfleoedd am greu buddion economaidd ar gyfer y gymuned leol. Bydd angen sensitifrwydd i gyflawni hynny yn ogystal ag agoredd tuag at syniadau newydd tra'n cydnabod gwerthoedd cynhenid y safle.

Torri coed ar hyn o bryd a'r cerbydau mawr cysylltiedig - pryderon am gynnydd mewn trafnidiaeth.

Nes y lluniwyd Cynllun Dylunio Coedwig, ni cheir unrhyw newid i lefelau'r rheoli yng nghoedwig Niwbwrch. Os byddwn yn penderfynu torri mwy o goed er mwyn adfer y twyni tywod fel rhan o'r Cynllun Dylunio Coedwig newydd, bydd yr Asesiad Effeithiau Amgylcheddol yn archwilio testunau megis cynnydd mewn trafnidiaeth. Buaswn yn cyd-

gysylltu â phobl leol er mwyn ceisio lleihau effeithiau gwaith o'r math cymaint ag y byddai'n bosibl.

Mae ymgynghori yn ymarfer gosmetig yn unig. Bydd Cyfarwyddyd Cynefinoedd Ewrop yn trechu buddion cymunedol a chadwraeth leol

Mae gan y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru nifer o "yriannau" am newid. Maent yn cynnwys Cyfarwyddyd Cynefinoedd, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn, Coetiroedd i Gymru (strategaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer coedwigoedd yng Nghymru), Strategaeth Coetir Ynys Môn a Chytundeb Århus a Chyfarwyddyd 2003/35/EU yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r broses ymgynghorol yn ymdrech ddifrifol i gasglu barn a fydd yn sail gwybodaeth ar gyfer y broses o ddylunio ac yn helpu cael cydbwysedd rhwng hawliadau a honiadau cystadleuol a chynhennus.

Hefyd, mae gennym ddyhead syml i weld gwell rheolaeth o'r safle am nifer fawr o amcanion fel y gall pobl, y goedwig a'r twyni tywod agored gyd-fyw yn heddychlon!

Tai cost isel fforddadwy

Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Comisiwn Coedwigaeth i archwilio ei ddaliadau tir ar gyfer tir posibl ar gyfer tai, a rhestrwyd Niwbwrch fel posibilrwydd. Ni wnaeth unrhyw arall ar hyn a byddai unrhyw gynlluniau'n destun y ddeddfwriaeth cynllunio lawn, gan gynnwys yr angen am ystyried cadwraeth bioamrywiaeth a thirweddau.

Cysgod rhag y tywydd tra'n cerdded

Ar gyfer y dyfodol rhagweladwy yn Niwbwrch, ymddengys bod arwynebedd mawr o goetir yn debygol. Ystyrir cysgod o fewn mannau mwy agored fel dewisiadau o fewn y dyluniad manwl.

Mynediad am gerdded

Ni cheir lleihad yn yr arwynebedd a fydd ar gael am gerdded - yn wir, bydd neilltuad y tir fel Tir Mynediad o dan y ddeddfwriaeth newydd yn diogelu'r hawliau hyn.

Twyni agored - mwy o dir agored

Un dewis ar gyfer y dyfodol fyddai creu mwy o dwyni agored ar hyd y traeth, gan adfer dilyniant cynnar y twyni a galluogi'r traeth i ymateb i newidiadau'r hir gyfnod mewn gwynt, tonnau a hinsawdd, a chynyddu'r cynefin twyni agored ar fannau is.

Coed - mwy o goed llydanddail - mwy o orchudd coed

Un dewis ar gyfer y dyfodol fyddai creu gortho coed a haenen y llawr mwy amrywiol o lawer, gyda mwy o goed llydanddail. Er y byddai cyfanswm arwynebedd y coed o bosibl yn newid, bydd yr arwyneb a erys yn troi'n fwy amrywiol.

Wardeinio - casglu baw cŵn - am heddluo - ar gefn ceffyl

Bydd ein staff lleol yn ymdrechu i sicrhau bod coedwig Niwbwrch yn lle diogel a dymunol

am ymweliadau. Wrth i adnoddau caniatáu hynny, byddwn o bosibl yn ystyried newidiadau i'r staff.

Cael gwared o'r merlod

Defnyddir merlod ar nifer of fannau o fewn y goedwig fel peiriannau medelu naturiol er mwyn cynnal llennyrch agored ar gyfer amcanion cadwraethol penodol - gan gynnwys nifer o rywogaethau prin iawn, iawn megis tafol y traeth a gelod meddyginiaethol. Mae eu carthion yn cynnal llawer o greaduriaid di-asgwrn-cefn (a ddefnyddir fel bwyd gan adar megis y frân goesgoch) a rhywogaethau prin o ffwng.

Cadw cynefin ac amrywiaeth bywyd gwyllt

Dyma amcan gyriannol y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae cynefinoedd y twyni a'r coetir fel y cyfryw yn newid dros amser - weithiau'n naturiol a gweithio trwy ymyraethau neu esgeulustod dynol ryw. Wrth ystyried effeithiau anferth dynol ryw wrth effeithio ar yr amgylchedd lleol a byd-eang, mae gennym gyfrifoldeb i drin yr effeithiau hyn a'u lliniaru lle'n bosibl.

Mwy o wybodaeth a chadw'n hysbys

Fel y bydd y cynllun yn datblygu, byddwn yn bwydo testunau a godir i mewn i'r broses dylunio. Ceir cyfleoedd pellach am gyfranogiad.

Agor yr hen ffordd ar gyfer preswylwyr.

Mae gennym gytundeb hirfaeth gyda chymuned Niwbwrch i barchu hawliau tramwy hynafol. Ond o bosibl y bydd ffyrdd o gyflawni hyn mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Gall fod yn well i archwilio'r hyn y gellir ei wneud i wella pethau rŵan yn hytrach na cheisio adfer rhywbeth sydd o bosibl ddim yn berthnasol bellach. Rhowch eich awgrymiadau chi!

Gwario'r arian o'r maes parcio ar y safle

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gysylltiad rhwng yr arian a gesglir o'r maes parcio a'r swm a warir ar y safle. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi rheoli'r cyfleusterau yn Niwbwrch a bydd yn parhau i wneud hynny.

Newid graddol

Mae'r Cynllun Dylunio Coedwig yn gynllun hir-gyfnod sydd yn edrych ar y deng mlynedd ar hugain i ddod, a chaiff ei arolygu bob deng mlynedd.

Grŵp y Gwiwerod am gael cyfarfod
Cynhaliwyd cyfarfodydd â Phrosiect Gwiwerod Cochion Ynys Môn a bydd y dialog gyda'r grŵp yn parhau.

Cadw'r heddwch a'r llonyddwch

Rydym yn ymwybodol o'r gwerth a roddir ar heddwch a llonyddwch y safle - yn y twyni tywod ac yn y goedwig fel y cyfryw.

Y gallu i ymgolli yn y goedwig

Mae heddwch ac unigrwydd y goedwig yn werth cydnabyddedig. Mae rhai yn ofni mynd ar goll yn y goedwig felly defnyddir system o arwyddion yn aml.

Y Comisiwn Coedwigaeth i sefyll ar ei draed ei hunan

Dim problem! Mae'r Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru'n gweithio gyda'i gilydd yn Niwbwrch. Mae gennym gyd-amcanion ond mae hyn oll ond yn rhan o'r llun ehangach ar gyfer Niwbwrch (hwyrach ni ddylem ddweud hynny yma gan y bydd rhai'n dehongli hyn fel agenda gyfrinachol). Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn er mwyn darganfod cymaint o'r gwahanol fuddiannau a phryderon ag sydd yn bodoli yn Niwbwrch. Gyda'r holl wybodaeth hon bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn llunio Cynllun Dylunio Coedwig newydd.

Y Maes Parcio - Cadw maes parcio'r preswylwyr- Ehangu'r maes parcio.

Er y mae'n bosibl y bydd safle maes parcio'r preswylwyr yn cael ei benderfynu gan erydiad gan y môr, mae gennym ymrwymiad i gadw'r cyfleustra hwn yn Niwbwrch. Gallai cynyddu maint y prif faes parcio wrth y traeth wrthdaro â'r galw am heddwch a llonyddwch ar yn safle a gofyniadau cadwraethol eraill.

Amlinelliad clir o'r buddion i breswylwyr Niwbwrch

Byddwn y sicrhau y byddwn yn gwneud hynny.

Dinoethi'r ysgafell

Dinoethwyd nifer o nodweddion craig yn ystod y blynyddoedd diweddaraf ar hyd ffyrdd y goedwig. Byddwn yn archwilio'r cyfleoedd am dirweddu manwl er mwyn manteisio ar y rhain lle'n bosibl.

Parhau i deimlo'n ddiogel yn y goedwig oherwydd agosrwydd defnyddwyr eraill o fewn pellter galw

Mae'r cydbwysedd rhwng gallu'r goedwig i gynnwys niferoedd mawr o bobl a rhoi syniad o unigrwydd yn un mân iawn.

Cynnal seminarau i ymgynghori â'r cyhoedd yn hytrach na chyfarfodydd cyhoeddus traddodiadol.

Ein bwriad yw defnyddio amrywiaeth o dechnegau i fesur a phwyso barn y cyhoedd.